

Tribiwnlys Addysg Cymru

Pobl ifanc, neu rieni plant,
nad oes ganddynt alluedd

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i ddeall materion yn ymwneud â phobl ifanc neu rieni plant nad oes ganddynt alluedd yn y system ADY.

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr achos yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Cyflwyniad

Mae galluedd person yn cyfeirio at ei allu i ddeall gwybodaeth, a chyfleu penderfyniad gwybodus mewn perthynas â'r wybodaeth honno. Os nad oes gan rywun alluedd, mae hynny fel arfer oherwydd nam neu amhariad ar y meddwl, neu oedran ifanc y person.

Mae pobl nad oes ganddynt alluedd yn aml yn cael eu rhyddhau o'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau pwysig, neu gymryd camau penodol. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir penodi cynrychiolwyr i weithredu er lles pennaf y person.

Pobl ifanc, neu rieni plant, sydd heb alluedd o fewn y system ADY

Mae'r diffiniad ar gyfer pobl ifanc a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd yn y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dilyn yr un ystyr â 'lacking capacity' yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'n golygu person nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad penodol neu i wneud rhywbeth penodol drosto'i hun ar yr adeg y mae angen penderfynu neu weithredu.

Gall hyn fod oherwydd nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu'r ffordd y mae'n gweithio, boed hynny'n nam parhaol neu dros dro.

Ni ellir penderfynu nad oes gan rywun alluedd drwy gyfeirio at ei oedran neu ymddangosiad yn unig. Ni ellir penderfynu chwaith drwy gyfeirio at gyflwr person, neu agwedd ar ei ymddygiad, a allai arwain eraill i wneud rhagdybiaethau heb gyfiawnhad am ei alluedd.

Mae'r diffiniad o alluedd ar gyfer plant (pobl o oedran ysgol gorfodol ac iau) yn wahanol. Gweler ein llyfryn canllaw *Plant nad oes ganddynt alluedd, a chyfeillion achos (ETW9)* am y wybodaeth hon.

Diffiniad o bobl ifanc yn y system ADY

Mae unrhyw gyfeiriad at berson ifanc yn y system ADY yn golygu person dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 25 oed.

Mae oedran ysgol gorfodol yn cael ei bennu gan oedran gadael yr ysgol. Yng Nghymru, gallwch adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, cyn belled â'ch bod yn troi'n 16 oed erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno.

Er enghraifft, os mai diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol nesaf yw 01 Medi 2022, bydd pawb sy'n troi'n 16 oed rhwng 01 Medi 2021 a 31 Awst 2022 (y flwyddyn ysgol) yn cael eu cyfrif fel person ifanc ddydd Gwener 24 Mehefin 2022. Bydd rhai pobl yn 16 oed, a bydd rhai yn 15 oed.

Sut mae galluedd yn cael ei asesu?

Fel arfer, bydd person ifanc neu riant nad oes ganddo alluedd eisoes wedi'i adnabod felly. Efallai i'r asesiad gael ei gynnal gan y GIG neu weithwyr addysg proffesiynol yn achos person ifanc.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i Chod Ymarfer yn nodi'r gyfraith ac yn rhoi canllawiau ar sut i asesu a oes gan rywun y galluedd i wneud penderfyniad, gan gynnwys pryd y dylai gweithwyr proffesiynol gymryd rhan yn yr asesiad.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gosod pum egwyddor allweddol:

1. Rhaid tybio fod gan berson alluedd oni phrofir nad oes ganddo alluedd.
2. Ni cheir trin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd i wneud ei benderfyniad ei hun oni bai bod pob cam ymarferol i roi cymorth i berson wneud hynny wedi ei gymryd heb lwyddiant.
3. Ni ddylid trin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd i wneud penderfyniad dim ond oherwydd iddo wneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir dros neu ar ran rhywun nad oes ganddo alluedd fod er ei fudd pennaf.
5. Cyn i weithred neu benderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a oes ffordd arall o gyflawni'r un diben sy'n cyfyngu llai ar hawliau'r person a'i ryddid i weithredu.

Sut mae person ifanc, neu riant plentyn, sydd heb alluedd yn arfer ei hawliau?

Os nad oes gan berson ifanc, neu riant plentyn, alluedd, gall cynrychiolwyr penodol arfer eu hawliau ar eu rhan.

Er enghraifft, gall cynrychiolydd wneud y canlynol ar ran person ifanc neu riant nad oes ganddo alluedd:

- gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu berson ifanc ailystyried penderfyniadau a wnaed ynghylch a oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY;
- bwrw ymlaen ag apêl i'r Tribiwnlys Addysg;
- cael gwybodaeth, dogfennau a hysbysiadau o benderfyniadau, gan gynnwys copi o CDU;
- cymryd rhan yn y trefniadau a wneir gan awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau;
- gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol. Pan fo cais o'r fath wedi ei wneud, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfeirio cynrychiolydd person ifanc at wasanaeth eirioli annibynnol.

Dyma'r cynrychiolwyr:

- **dirprwy**, a benodwyd gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniad ar ran y rhiant neu'r person ifanc. Mae dirprwyon yn rhwym wrth delerau'r gorchymyn penodi, a gyhoeddir gan y Llys Gwarchod;
- **derbynnydd atwrneiaeth arhosol (LPA)**, a benodwyd gan y rhiant neu'r person ifanc i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant neu'r person ifanc, gan gynnwys rhoi'r awdurdod iddo wneud penderfyniadau mewn amgylchiadau lle nad oes gan y person alluedd mwyach;
- **twrnai sydd ag atwrneiaeth barhaus (EPA)**; neu
- **rhiant y person ifanc**, pan nad oes gan y person ifanc gynrychiolydd a restrir uchod.

Beth sydd ddim yn newid pan nad oes gan berson ifanc neu riant plentyn alluedd?

Ni waeth a oes gan berson ifanc, neu riant plentyn, alluedd ai peidio, mae'n dal i allu gwneud cyfraniad sylweddol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am ei ADY neu ADY ei blentyn.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i'r canlynol yn dal i fod yn gymwys:

- ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau,
- pwysigrwydd sicrhau ei fod yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a
- phwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol iddo fel y gall gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Pa gymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr?

Mae hawliau pobl ifanc a rhieni plant i dderbyn gwybodaeth am ADY, neu atgyfeiriadau at wasanaethau eirioli annibynnol, yn cael eu trosglwyddo i'w cynrychiolwyr os penderfynir nad oes ganddynt alluedd. Bydd awdurdodau lleol a sefydliadau addysg yn cyflawni'r dyletswyddau hyn gyda chynrychiolwyr os gofynnir amdanynt.

Mae gan eiriolwyr wybodaeth fanwl am y system ADY, ac maent yn cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth i blant, eu rhieni, a chynrychiolwyr y rhai nad oes ganddynt alluedd. Maent yn annibynnol ar awdurdodau lleol a llywodraeth. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd?

I gael rhagor o wybodaeth, awgrymwn gyfeirio at y dogfennau canlynol. Rydym wedi nodi'r adrannau sydd o ddiddordeb arbennig, ond mae'r holl wybodaeth yn y dogfennau yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i gynrychiolwyr.

Mae dolenni i'r dogfennau hyn ar frig y llyfryn canllaw hwn, o dan "Adnoddau gwybodaeth".

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

- Paragraffau 1.59 – 1.69: Arfer hawliau gan gynrychiolwyr rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd a'r dehongliad o ofynion a osodir gan y Cod
- Pennod 4: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc
- Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY
- Pennod 31: Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol
- Pennod 32: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol

Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

Rhan 4: Rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Adran 69: Gwasanaethau eirioli annibynnol
- Adran 83: Rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd

Deddf Galluedd Meddyliol 2005